| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **20 HYDREF 2011** |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU 2010-2011** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu i'r Cyngor.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **PENNAETH STRATEGOL A GWELLA** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **ARWEINYDD Y CYNGOR** |

## 1. Pwrpas.

Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi, yn Erthygl 6, yr angen "*i'r Pwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ynglŷn â sut y maent yn gweithio, a gwneud argymhellion ar gyfer rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol, a dulliau gwaith diwygiedig os yn briodol"*.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r adroddiad blynyddol i'r Cyngor.

## 2. Cynnwys yr Adroddiad.

Yn ogystal â nodi gwaith y Pwyllgorau yn y flwyddyn ddiwethaf, ceisiwyd ddefnyddio'r adroddiad blynyddol fel gwerthusiad o waith yr elfen craffu, trwy gynnwys cymal yn nodi'r gwahaniaeth a wnaeth pob pwyllgor trwy eu gwaith yn ystod y flwyddyn.

Gobeithir trwy hyn bwysleisio'r angen i sicrhau bod unrhyw eitemau a gyflwynir i'r pwyllgorau i bwrpas hyrwyddo newid a gwelliannau yn y gwasanaethau y maent yn gyfrifol am eu craffu.

## 3. Argymhelliad

**Gofynnir i'r Cyngor dderbyn Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu.**